TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Dyddiad cyhoeddi: 5 Mehefin 2020

Gwaredu CVL

Diolch am eich cais Deddf Rhyddid Gwybodaeth ar 24 Ebrill 2020. Gofynnoch am y wybodaeth ganlynol:

- copi meddal o'r Cytundeb Gwaredu CVL

Rydym yn ysgrifennu atoch i gadarnhau bod eich cais wedi'i ystyried dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (y Ddeddf) a bod Trafnidiaeth Cymru (TrC) wedi cwblhau ei broses o chwilio am y wybodaeth.

Mae Trafnidiaeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi fersiwn wedi'i golygu o Gytundeb Gwaredu CVL yn ddiweddarach eleni. Byddwn yn eich hysbysu pan fydd ar gael ar ein gwefan.

Gan fod y wybodaeth y gofynnoch amdani i fod i gael ei chyhoeddi yn ddiweddarach eleni, mae'r wybodaeth yn cael ei dal yn ôl ar hyn o bryd yn ddibynnol ar yr esemptiad yn adran 22 o'r Ddeddf sy'n cwmpasu gwybodaeth y bwriedir ei chyhoeddi yn y dyfodol. Mae Adran 22 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 'Bwriedir cyhoeddi yn y dyfodol' yn dweud bod gwybodaeth yn cael ei hesemptio:

> (a) os yw'r wybodaeth yn cael ei chadw gan yr awdurdod cyhoeddus gyda golwg ar ei chyhoeddi, gan yr awdurdod neu unrhyw berson arall, ar ryw ddyddiad yn y dyfodol (boed hwnnw wedi'i benderfynu ai peidio);
>
> (b) os oedd y wybodaeth eisoes yn cael ei chadw gyda golwg ar ei chyhoeddi ar yr adeg y gwnaed y cais am wybodaeth, ac
>
> (c) mae'n rhesymol dan yr holl amgylchiadau y dylid dal y wybodaeth yn ôl rhag ei datgelu hyd y dyddiad y cyfeirir ato ym mharagraff (a).

Yn gywir

Trafnidiaeth Cymru